# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

## Cofnod Cryno o Bwyllgor: CC(3)-12-10 : Dydd Mercher 22 Medi 2010

Mae modd gweld y cyfarfod hwn ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300000_22_09_2010&t=0

**Amser: 9.00 – 10.46**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**
Sandy Mewies, Delyn (Cadeirydd)
Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Mark Isherwood, Gogledd Cymru
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Lynne Neagle, Torfaen
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Tyst**
Nick Capaldi, Prif Weithredwr, Cyngor y Celfyddydau Cymru (Eitem 6)

**Staff y Pwyllgor**
Tom Jackson, Clerc
Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc
Jonathan Baxter – Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (9.00 – 9.05)

1.1Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies a Bethan Jenkins, ac nid oedd dim dirprwyon.

1.3 Gwnaeth Joyce Watson ddatgan ei bod yn Aelod o Undeb Gredyd.

1.4 Nododd y Cadeirydd bod y Dirprwy Weinidog dros Dai wedi anfon ei hymddiheuriadau am fethu â dod i'r cyfarfod hwn a mynegodd y Pwyllgor eu cydymdeimlad â hi.

## 2: Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Eitemau 3 - 5

2.1 Gwnaeth y Cadeirydd gynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37(ix), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, i drafod materion yn ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 3: Blaenraglen waith y Pwyllgor (9.02 – 9.23)

Papur: CC(3)-12-10 (p5)

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei flaenraglen waith.

**Camau i'w cymryd**

- Gofynnwyd i'r Clerc ddosbarthu llythyr gan Alun Davies AC a'r Llywydd i Aelodau.
- Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at y Pwyllgor Materion Cymreig a'r Pwyllgor Busnes ynglyn â'r materion a godwyd yn y llythyr.

## 4:Ymchwiliad i'r Sector Rhentu Preifat (9.23 – 9.38)

Papur: CC(3)-12-10 (p4)

4.1 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i'r Sector Rhentu Preifat.

**Cam i'w gymryd**

- Gofynnwyd i'r Clerc ddosbarthu'r cylch gorchwyl a'r alwad am dystiolaeth i'r Aelodau

## 5: Ymchwiliad i 'Gynhwysiant ariannol ac effaith addysg ariannol' – ystyried y themâu a'r materion sy'n dod i'r amlwg (9.38 – 9.45)

Papur: CC(3)-12-10 (p3)

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y papur sy'n nodi themâu a materion sy'n dod i'r amlwg o'u hymchwiliad i gynhwysiant ariannol ac effaith addysg ariannol.

**Cam i'w gymryd**

- Gofynnwyd i'r Clerc i adlewyrchu sylwadau'r Aelodau yn adroddiad yr ymchwiliad hwn.

**Egwyl – 9.45 – 9.58**

## 6: Ymchwiliad i hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru (9.58 – 10.46) – tystiolaeth gan Gyngor y Celfyddydau Cymru

CC(3)-12-10 (p2)

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gyngor y Celfyddydau Cymru fel rhan o'u hymchwiliad i hygyrchedd gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru

### Cam i'w gymryd

- Gofynnwyd i'r Clerc anfon nifer o gwestiynau a oedd heb eu gofyn gan yr Aelodau i Gyngor y Celfyddydau Cymru.

## 8: Papurau a nodwyd

8.1 Nododd y Pwyllgor y papurau a ganlyn:

CC(3)-12-10 (p6) – Arolygu Gweithrediadau Asiantaeth Ffiniau'r DU yng Nghymru a De Orllewin Lloegr
CC(3)-12-10 (p7) – Gwybodaeth ychwanegol gan y Gweinidog dros Dreftadaeth yn dilyn y cyfarfod ar 8 Gorffennaf
CC(3)-12-10 (p8) – Nodyn am ymweliad yr Aelodau ag Ysgol y Berwyn – 26 Mehefin
CC(3)-12-10 (p9) – Nodyn am ymweliad yr Aelodau â Chanolfan Cyngor ar Bopeth Abertawe
CC(3)-11-10 : Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 8 Gorffennaf 2010

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Medi 2010**